**GORCHYMYN BWRDEISTREF SIROL CONWY**
**(FFYRDD AMRYWIOL HEN GOLWYN)**
**(GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS) 2025**

Yn unol â'i bwerau dan Adrannau 1 a 2 (a Rhan IV Atodlen 9), Deddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984"), a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori efo Prif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") yn gwneud drwy hyn y Gorchymyn canlynol:-

1. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y dydd o Dwy fil a phump ar hugain a gellir ei ddyfynnu fel "Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Ffyrdd Amrywiol –Hen Golwyn) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 2025."

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:-

mae "safle tacsis awdurdodedig" yn golygu unrhyw ran o ffordd gerbydau sydd wedi ei gynnwys oddi mewn i farc ffordd sy'n cydymffurfio â diagram 1028.2 yn Atodlen 6 Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Trafnidiaeth Ffyrdd 2016;

mae "lle parcio awdurdodedig" yn golygu unrhyw le parcio, ar ffordd, sydd wedi ei awdurdodi neu wedi ei ddynodi gan Orchymyn sydd wedi ei wneud dan Ddeddf 1984, neu sydd mewn grym fel pe bai wedi cael ei wneud dan y Ddeddf honno;

mae "safle bysiau" yn golygu unrhyw ddarn o ffordd gerbydau a ddynodir mewn unrhyw Erthygl neu Atodlen i'r Gorchymyn hwn fel un sydd wedi ei fwriadu ar gyfer aros gan fysiau sydd wedi ei gynnwys oddi mewn i farc ffordd sy'n cydymffurfio â diagram 1025.1, 1025.3 neu 1025.4 yn Atodlen 6 Rheoliadau Arwyddion Trafnidiaeth a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2016;

mae gan "cerbyd hacni" yr un ystyr ag sydd gan "hackney carriage" yn Adran 38(1) Deddf Cerbydau (Tollau) 1971;

mae gan "bathodyn unigolyn gydag anabledd" yr un ystyr ag sydd gan "disabled person's badge" yn Rheoliadau Pobl Gydag Anabledd (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000;

mae gan "disg parcio" yr un ystyr ag sydd gan "parking disc" yn Rheoliad Rhif 8 Rheoliadau Gorchmynion Trafnidiaeth Awdurdodau Lleol (Esgusodiadau ar gyfer Pobl Gydag Anabledd) (Cymru) 2000;

“Trwydded Parcio Dilys" yn golygu trwydded a gyhoeddir gan Awdurdod yr Harbwr i ganiatáu i gerbydau sy'n dwyn trwydded o'r fath i barcio yn y man penodol hwnnw

(2) I bwrpas y Gorchymyn hwn, ystyrir bod cerbyd yn arddangos bathodyn unigolyn gydag anabledd yn y lle perthnasol:

(a) pan nad yw'r bathodyn wedi peidio â bod mewn grym; a

(b) (i) pan fo'r bathodyn yn cael ei arddangos ar forden flaen neu banel deialau'r cerbyd, neu

(ii) pan fo'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn lle amlwg ar flaen neu ar ochr agos y cerbyd (os nad yw'r cerbyd wedi ei ffitio â borden flaen neu banel deialau), fel bod modd darllen blaen y bathodyn yn glir o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) I bwrpas y Gorchymyn hwn, ystyrir bod cerbyd yn arddangos disg parcio yn y lle perthnasol:

(a) pan fo'r disg yn cael ei arddangos ar forden flaen neu banel deialau'r cerbyd, neu

(b) pan fo'r disg yn cael ei arddangos mewn man amlwg ar y cerbyd, os nad yw'r cerbyd wedi ei ffitio â borden flaen neu banel deialau.

(4) Ac eithrio lle nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen rifedig yn gyfeiriad at yr Erthygl neu Atodlen sydd â'r rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Ac eithrio’r hyn a ddarperir yn <u>Erthygl 5</u> y Gorchymyn hwn, ni chaiff unrhyw un, oni bai ei fod yn gweithredu dan gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu neu swyddog gorfodaeth sifil mewn lifrai, achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn.

4. Ac eithrio fel y darperir yn Erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn ni chaiff neb, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu neu swyddog gorfodi sifil mewn lifrai, achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd llwytho / dad-llwytho ar unrhyw adeg ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 2

5. (1) Ni fydd unrhyw beth yn <u>Erthygl 3</u> y Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn(au) ffordd a gyfeirir atynt yn yr Erthyglau hynny, am gyhyd ag y bydd angen i ganiatáu:-

(a) Unigolyn i fynd i mewn i gerbyd neu ddod allan ohono.

(b) Nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu gael eu dadlwytho oddi arno.

(c) defnyddio’r cerbyd, os nad oes modd ei ddefnyddio'n hwylus i bwrpas o'r fath ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw rai o'r gweithgareddau canlynol, sef:-

(i) Gweithrediadau adeiladu, dymchwel neu ddiwydiannol.

(ii) Symud unrhyw rwystr ar draffig.

(iii) Cynnal, gwella neu ailadeiladu'r darn[au] ffordd dan sylw.

(iv) Gosod, codi, newid, neu atgyweirio, ar dir cyfagos i’r darn(au) ffordd dan sylw, unrhyw garthffos, neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar cyflenwi nwy,

dwr neu drydan, neu unrhyw offer telegyfathrebu fel y mae'r rheiny'n cael eu diffinio yn Neddf Telegyfathrebu 1984.

(ch) Galluogi i'r cerbyd gael ei ddefnyddio, os nad oes modd ei ddefnyddio'n hwylus i bwrpas o'r fath ar unrhyw ffordd arall, at wasanaeth awdurdod lleol neu gwmni gwasanaeth cyhoeddus, yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol.

(d) Cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol dan Adran 125 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000

(dd) Galluogi'r cerbyd i aros gerbron neu yn agos at unrhyw adeilad sydd wedi ei leoli ar y darn[au] ffordd dan sylw neu'n gyfagos iddynt, am gyhyd ag y bydd angen rhesymol i'r cerbyd hwnnw aros yno mewn cysylltiad ag unrhyw briodas neu gynhebrwng.

(e) Galluogi i'r cerbyd gael ei ddefnyddio i bwrpasau brigâd dân, yr heddlu neu ambiwlans.

(2) Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 3 y Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i gerbyd unigolyn gydag anabledd sy'n arddangos, yn y lle perthnasol, fathodyn unigolyn gydag anabledd a disg parcio (lle mae'r gyrrwr, neu unigolyn arall sydd â gofal am y cerbyd, wedi nodi'r amser y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar y darn[au] ffordd a gyfeiriwyd atynt yn yr Erthyglau hynny am gyfnod o ddim mwy na 3 awr (ar yr amod bod cyfnod o ddim llai nag 1 awr wedi mynd heibio ers diwedd unrhyw gyfnod blaenorol o aros gan yr un cerbyd ar yr un diwrnod).

6. (1) Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 4 y Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn[au] ffordd y mae'r Erthygl honno'n cyfeirio atynt am gyhyd ag sydd angen i alluogi:-

(a) Y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio yn gyfleus i bwrpasau o’r fath ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cyswllt ag unrhyw un o’r gweithrediadau canlynol, yn benodol:-

(i) Gweithrediadau adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel.

(ii) Cael gwared ar unrhyw rwystr i draffig.

(iii) Cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu’r darn(au) o ffordd dan sylw.

(iv) Gosod, codi, newid, neu atgyweirio, ar y darn[au] ffordd dan sylw neu ar dir cyfagos â hwy, unrhyw garthffos, neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw offer telegyfathrebu fel y maent yn cael eu diffinio yn Neddf Telegyfathrebu 1984.

(v) Y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio yn gyfleus i bwrpasau o’r fath ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio at wasanaeth awdurdod lleol neu gwmni gwasanaeth cyhoeddus, yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol.

(b) Cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol dan Adran 125 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000

(c) Galluogi'r cerbyd i aros wrth neu'n agos at unrhyw adeilad sydd wedi ei leoli ar y darn[au] ffordd dan sylw neu'n gyfagos atynt, am gyhyd ag y bydd angen rhesymol i'r cerbyd hwnnw aros yno mewn cysylltiad ag unrhyw briodas neu gynhebrwng.

(d) Galluogi i'r cerbyd gael ei ddefnyddio i bwrpasau brigâd dân, yr heddlu neu ambiwlans.

(e) Cerbyd sy'n aros pan fydd yn ofynnol i'r person sy'n rheoli'r cerbyd stopio yn ôl y gyfraith, neu mae'n rhaid iddo stopio er mwyn osgoi damwain neu ei atal rhag mynd ymlaen trwy amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

7. Pan fo unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gwrthdaro ag amod sydd wedi ei gynnwys mewn Gorchymyn sydd wedi ei wneud, neu sydd mewn grym fel pe bai wedi ei wneud, dan Ddeddf 1984, ac sydd mewn grym pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym, ac sy'n gosod cyfyngiad neu waharddiad ar gerbydau heblaw bysiau neu goetsys cyflym mewn arhosfan bysiau, neu'n esgusodi rhag cyfyngiad neu waharddiad o'r fath, darpariaeth y Gorchymyn hwnnw fydd drechaf.

8. Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau sy'n cael eu gosod gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu amod sy'n cael ei osod gan unrhyw reoliadau sydd wedi eu gwneud dan Ddeddf 1984, neu sydd mewn grym fel pe baent wedi eu gwneud naill ai dan y Ddeddf honno neu gan unrhyw ddeddf arall, ac ni fyddant yn tynnu oddi wrtho.

**Atodlen 1**

Dim aros ar unrhyw adeg

| | |
|---|---|
| **Ffordd Llysfaen, Hen Golwyn** | **Ochr y gogledd:** o bwynt 10 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â Penrhos Avenue am 20 metr tua'r dwyrain |
| **Penrhos Avenue, Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Ffordd Llysfaen am 6 metr tua'r gogledd |
| **Wynnstay Road, Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Ffordd Abergele am 20 metr tua'r gogledd |
| **Ffordd Abergele, Hen Golwyn** | **Ochr y gogledd:** o'r gyffordd ag Wynnstay Road am 20 metr tua'r gorllewin<br>**Ochr y de:** o bwynt 10 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â Meiriadog Road am 28 metr tua'r dwyrain |
| **Meiriadog Road, Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Ffordd Abergele am 6 metr tua'r de |
| **Bodelwyddan Avenue, Hen Golwyn** | **Ochr y gorllewin:** o bwynt 110 metr i'r de ddwyrain o'r gyffordd â Watkin Avenue am 15 metr tua'r de ddwyrain |
| **Ffordd Abergele, Hen Golwyn** | **Ochr y gogledd:** o bwynt 9 metr i'r gogledd orllewin o'r gyffordd â Bryn Colwyn am 47 metr tua'r de ddwyrain |
| **Bryn Colwyn, Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Ffordd Abergele am 7 metr tua'r gogledd ddwyrain |
| **Wynnstay Road,** | **Ochr y gorllewin:** o bwynt 15 metr i'r gogledd o'r gyffordd â |

| | |
|---|---|
| **Hen Golwyn** | Ffordd yr Orsaf am 25 metr tua'r de ddwyrain<br>**Ochr y dwyrain:** o bwynt 14 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Ffordd yr Orsaf am 25 metr tua'r de ddwyrain |
| **Ffordd yr Orsaf, Hen Golwyn** | **Ochr y gogledd:** o'r gyffordd ag Wynnstay Road am 12 metr tua'r gogledd ddwyrain<br>**Ochr y de:** o'r gyffordd ag Wynnstay Road am 10 metr tua'r gogledd ddwyrain |
| **Princess Road, Hen Golwyn** | **Ochr y gorllewin:** o bwynt 6 metr i'r gogledd ddwyrain o'r gyffordd â Back Cadwgan Road am 11 metr tua'r de orllewin |
| **Churchill Close, Hen Golwyn** | **Ochr y gorllewin:** o bwynt 10 metr i'r gogledd o'r gyffordd â St David's Road am 20 metr tua'r de |
| **St David's Road, Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Churchill Close am 5 metr tua'r dwyrain |
| **Ffordd Coed Coch, Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Lôn Peulwys am 8 metr tua'r gogledd |
| **Lôn Peulwys, Hen Golwyn** | **Ochr y gogledd orllewin:** o bwynt 12 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â Ffordd Coed Coch am 26 metr tua'r dwyrain |
| **Lôn Peulwys, Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Ffordd Llanelian am 10 metr tua'r gogledd ddwyrain |
| **Ffordd Llanelian, Hen Golwyn** | **Ochr y dwyrain:** o bwynt 12 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Lôn Peulwys am 26 metr tua'r de |
| **Ffordd Llanelian (di-ddosbarth), Hen Golwyn** | **Ochr y gogledd orllewin:** o bwynt 12 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â Llanelian Heights am 24 metr tua'r gogledd ddwyrain<br>**Ochr y de ddwyrain:** o bwynt 8 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â Bryn Awel am 16 metr tua'r gogledd ddwyrain<br>**Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â B5383 Ffordd Llanelian am 6 metr tua'r de orllewin |
| **B5383 Ffordd Llanelian, Hen Golwyn** | **Ochr y de orllewin:** o bwynt 10 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Ffordd Llanelian (di-ddosbarth) am 20 metr tua'r de ddwyrain |
| **Llanelian Heights, Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Ffordd Llanelian am 6 metr tua'r gogledd |
| **Bryn Awel, Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Ffordd Llanelian am 4 metr tua'r de ddwyrain |
| **Ffordd Llanelian, Hen Golwyn** | **Ochr y dwyrain:** o bwynt 66 metr i'r gogledd orllewin o'r gyffordd â Kyffin Close am 78 metr tua'r de ddwyrain |
| **Kyffin Close, Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Ffordd Llanelian am 4 metr tua'r de ddwyrain |
| **Ffordd Llanelian, Hen Golwyn** | **Ochr y dwyrain:** o bwynt 12 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Ddôl Ddu am 24 metr tua'r de |
| **Ddôl Ddu, Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Ffordd Llanelian am 10 metr tua'r dwyrain |
| **St Catherine's Drive, Hen Golwyn** | **Ochr y gorllewin:** o bwynt 38 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Ffordd Llanelian am 20 metr<br>**Ochr y gogledd:** o bwynt 91 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Ffordd Abergele am 20 metr tua'r de ddwyrain<br>**Ochr y de:** o bwynt 100 metr i'r de o'r gyffordd â Ffordd Abergele am 20 metr tua'r de ddwyrain |
| **Ffordd Llanelian, Hen Golwyn** | **Ochr y de:** o bwynt 7 metr i'r de orllewin o'r gyffordd â Hillside Avenue am 27 metr tua'r de ddwyrain |
| **Ffordd Abergele, Bae Colwyn** | **Ochr y de:** o bwynt 30 metr i'r gorllewin o'r gyffordd ag Elian Road am 60 metr tua'r dwyrain |

| | |
|---|---|
| **Elian Road,**<br>**Bae Colwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Ffordd Abergele am 10 metr tua'r de |
| **Ffordd Llanelian,**<br>**Hen Golwyn** | **Ochr y dwyrain:** o bwynt 10 metr i'r gogledd orllewin o'r gyffordd â Minafon am 17 metr tua'r de ddwyrain |
| **Minafon,**<br>**Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Ffordd Llanelian am 10 metr tua'r gogledd ddwyrain |
| **Church Walks,**<br>**Hen Golwyn** | **Y ddwy ochr:** 4 metr i'r de orllewin o'r gyffordd â Green Hill am 3 metr tua'r de orllewin |
| **Green Hill,**<br>**Hen Golwyn** | **Ochr y gogledd:** o'r gyffordd â Church Walks am 42 metr tua'r gorllewin<br>**Ochr y gogledd:** o'r gyffordd â Church Walks am 8 metr tua'r gorllewin |

**Atodlen 2**

Dim llwytho ar unrhyw adeg

| | |
|---|---|
| **Ffordd Llanelian** | **Ochr y gogledd:** o'r gyffordd â Sandhills Road am 105 metr<br>**Ochr y de:** o bwynt 14 metr i'r gogledd orllewin o'r gyffordd â Sandhills Road am 28 metr tua'r de ddwyrain |
| **Sandhills Road** | **Y ddwy ochr:** o'r gyffordd â Ffordd Llanelian am 11 metr tua'r de orllewin |

**RHODDWYD** dan Sêl Gyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y dydd o Dwy fil a phump ar hugain

Cyflawnwyd fel Gweithred trwy osod
**SÊL GYFFREDIN**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**
yng ngŵydd :-

Executed as a Deed by affixing
**the COMMON SEAL of the**
**CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL**
in the presence of :-

**Swyddog Selio Awdurdodedig**
**Authorised Sealing Officer**

DYDDIEDIG/DATED     /        / 2025

**GORCHYMYN BWRDEISTREF SIROL CONWY (FFYRDD AMRYWIOL – HEN GOLWYN)**
**(GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS) 2025**

**CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL (VARIOUS ROADS – OLD COLWYN (PROHIBITION AND RESTRICTION OF WAITING) ORDER 2025**

**GORCHYMYN**
**ORDER**

Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu
Head of Law and Governance
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/
Conwy County Borough Council
Bodlondeb
Conwy.

Cyf./Ref: CCBC-049847A

**THE COUNTY BOROUGH OF CONWY**
**(VARIOUS ROADS – OLD COLWYN)**
**(PROHIBITION AND RESTRICTION OF WAITING) ORDER 2025**

The Conwy County Borough Council (hereinafter referred to as "the Council") in exercise of its powers under Sections 1 and 2 (and Part IV of Schedule 9) of the Road Traffic Regulation Act 1984 (hereinafter referred to as "the Act of 1984"), and of all other enabling powers and after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the Act of 1984 hereby makes the following Order:-

1. This Order shall come into operation on the day of Two thousand and twenty five and may be cited as "The County Borough of Conwy (Various Roads Old Colwyn) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 2025".

2. (1) In this Order:-

"authorised cab rank" means any area of carriageway which is comprised within and indicated by a road marking complying with diagram 1028.2 in Schedule 6 of the Traffic Signs Regulations and General Directions 2016;

"authorised parking place" means any parking place on a road authorised or designated by an Order made or having effect as if made under the Act of 1984;

"bus stop area" means any area of carriageway in any length of road specified in any Article or Schedule hereto intended for the waiting of buses which is comprised within or indicated by a road marking complying with either diagrams 1025.1, 1025.3, 1025.4 in Schedule 6 to the Traffic Signs Regulations and General Directions 2016;

"hackney carriage" has the same meaning as in Section 38(1) of the Vehicles (Excise) Act, 1971;

"disabled person's badge" has the same meaning as in the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000;

"parking disc" has the same meaning as in Regulation 8 of the Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

(2) For the purpose of this Order a vehicle shall be regarded as displaying a disabled person's badge in the relevant position, if -

(a) the badge has not ceased to be in force; and

(b) (i) the badge is exhibited on the dashboard or fascia of the vehicle, or

(ii) where the vehicle is not fitted with a dashboard or fascia, the badge is exhibited in a conspicuous position on the front or near side of the vehicle, so that the front of the badge is clearly legible from outside the vehicle.

(3) For the purposes of this Order a vehicle shall be regarded as displaying a parking disc in the relevant position if:-

(a) the disc is exhibited on the dashboard or fascia of the vehicle, or

(b) where the vehicle is not fitted with a dashboard or fascia the disc is clearly exhibited in a conspicuous position on the vehicle.

(4) Except where otherwise stated any reference in this Order to a numbered Article or Schedule is a reference to the Article or Schedule bearing that number in this Order.

3. Save as provided in Article 5 of this Order no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable or civil enforcement officer in uniform, cause or permit any vehicle to wait at any time in the lengths of road specified in Schedule 1.

4. Save as provided in Article 6 of this Order no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable or civil enforcement officer in uniform, cause or permit any vehicle to load or unload at any time in the length of road specified in Schedule 2.

5. (1) Nothing in Article 3 of this Order shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in the length(s) of road referred to therein for so long as may be necessary to enable:-

(a) A person to board or alight from the vehicle.

(b) Goods to be loaded on to or unloaded from the vehicle.

(c) The vehicle, if it cannot conveniently be used for such purposes in any other road, to be used in connection with any of the following operations, namely:-

(i) Building, industrial or demolition operations.

(ii) The removal of any obstruction to traffic.

(iii) The maintenance, improvement or reconstruction of the said length(s) of road.

(iv) The laying, erection, alteration or repair, in or in land adjacent to the said length(s) of road, of any sewer or of any main pipe or apparatus for the supplying of gas, water, or electricity, or of any Telecommunications apparatus as defined in the Telecommunications Act, 1984.

(d) The vehicle, if it cannot conveniently be used for such purposes in any other road to be used in the service of a local authority or a public utility company in pursuance of statutory powers or duties.

(e) The vehicle of a universal service provider under the Section 125 of the Postal Services Act 2000

(f) The vehicle to wait at or near to any premises situated on or adjacent to the said length(s) of road for so long as such waiting by that vehicle is reasonably necessary in connection with any wedding or funeral.

(g) The vehicle to be used for fire brigade, police or ambulance purposes.

(2) Nothing in Article 3 of this Order shall render it unlawful to cause or permit a disabled person's vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge, and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle has marked the time at which the period of waiting began), to wait in the length(s) of road referred to in that Article for a period not exceeding 3 hours (not being a period separated by an interval of less than 1 hour from a previous period of waiting by the same vehicle in the same day).

6. (1) Nothing in Article 4 of this Order shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in the length(s) of road referred to therein for so long as may be necessary to enable:-

(a) The vehicle, if it cannot conveniently be used for such purposes in any other road, to be used in connection with any of the following operations, namely:-

(i) Building, industrial or demolition operations.

(ii) The removal of any obstruction to traffic.

(iii) The maintenance, improvement or reconstruction of the said length(s) of road.

(iv) The laying, erection, alteration or repair, in or in land adjacent to the said length(s) of road, of any sewer or of any main pipe or apparatus for the supplying of gas, water, or electricity, or of any Telecommunications apparatus as defined in the Telecommunications Act, 1984.

(v) The vehicle, if it cannot conveniently be used for such purposes in any other road to be used in the service of a local authority or a public utility company in pursuance of statutory powers or duties.

(b) The vehicle of a universal service provider under the Section 125 of the Postal Services Act 2000

(c) The vehicle to wait at or near to any premises situated on or adjacent to the said length(s) of road for so long as such waiting by that vehicle is reasonably necessary in connection with any wedding or funeral.

(d) The vehicle to be used for fire brigade, police or ambulance purposes.

(e) A vehicle waiting when the person in control of the vehicle is required to stop by law, or is obliged to stop in order to avoid an accident or is prevented from proceeding by circumstances outside their control.

7. Insofar as any provision of this Order conflicts with a proviso which is contained in an Order made or having effect as if made under the Act of 1984 and existing at the time when this Order comes into operation, and which imposes a restriction or prohibition on vehicles other than stage carriages or express carriages in a bus stop area or grants an exemption from such restriction or prohibition, that provision of that Order shall prevail.

8. The prohibition and restrictions imposed by this Order shall be in addition to and not in derogation from any restriction or requirement imposed by any regulations made or having effect as if made under the Act of 1984 or by or under any other enactment.

**Schedule 1**

No waiting at any time

| | |
|---|---|
| **Llysfaen Road, Old Colwyn** | **North side:** from a point 10m west of its junction with Penrhos Avenue for a distance of 20m in an easterly direction |
| **Penrhos Ave, Old Colwyn** | **Both sides:** from its junction with Llysfaen Road for a distance of 6m in a northerly direction |
| **Wynnstay Road, Old Colwyn** | **Both sides:** from its junction with Abergele for a distance of 20m in a northerly direction |
| **Abergele Road, Old Colwyn** | **North side:** from its junction with Wynnstay Road for a distance of 20m in a westerly direction<br><br>**South side:** from a point 10m west of its junction with Meiriadog Road for a distance of 28m in an easterly direction. |
| **Meiriadog Road, Old Colwyn** | **Both sides:** from its junction with Abergele for a distance of 6m in a southerly direction. |
| **Bodelwyddan Avenue, Old Colwyn** | **West side:** from a point 110m south east of its junction with Watkin Avenue for a distance of 15m in a south easterly direction. |
| **Abergele Road, Old Colwyn** | **North side:** from a point 9m north west of its junction with Bryn Colwyn for a distance of 47m in a south easterly direction. |
| **Bryn Colwyn, Old Colwyn** | **Both sides:** from its junction with Abergele Road for a distance of 7m in a north easterly direction |
| **Wynnstay Road, Old Colwyn** | **West side:** from a point 15m north of its junction with Station road for a distance of 25m in a south easterly direction.<br><br>**East side:** from a point 14m north of its junction with Station road for a distance of 25m in a south easterly direction. |
| **Station Road, Old Colwyn** | **North side:** from its junction with Wynnstay Road for a distance of 12m in a north easterly direction<br><br>**South side:** from its junction with Wynnstay Road for a distance of 10m in a north easterly direction |
| **Princess Road, Old Colwyn** | **West side:** from a point 6m north east of its junction with Back Cadwgan Road for a distance of 11m in a south westerly direction |
| **Churchill Close, Old Colwyn** | **West side:** from a point 10m north of its junction with St David's Road for a distance of 20m in a southerly direction |
| **St David's Road, Old Colwyn** | **Both sides:** from its junction with Churchill Close for a distance of 5m in an easterly direction |

| | |
|---|---|
| **Coed Coch Road, Old Colwyn** | **Both sides:** from its junction with Peulwys Lane for a distance of 8m in a northerly direction |
| **Peulwys Lane, Old Colwyn** | **North west side:** from a point 12m west of its junction with Coed Coch Road for a distance of 26m in an easterly direction |
| **Peulwys Lane, Old Colwyn** | **Both sides:** from its junction with Llanelian Road for a distance of 10m in a north-easterly direction |
| **Llanelian Road, Old Colwyn** | **East side:** From a point 12m north of its junction with Peulwys Lane for a distance of 26m in a southerly direction |
| **Llanelian Road, (unclassified) Old Colwyn** | **North west side:** from a point 12m west of its junction with Llanelian Heights for a distance of 24m in a north-easterly direction<br>**South east side**: from a point 8m south-west of its junction with Bryn Awel for a distance of 16m in a north easterly direction<br>**Both sides**: from its junction with the B5383 Llanelian Road for a distance of 6m in a south westerly direction |
| **B5383 Llanelian Road, Old Colwyn** | **South west side:** from a point 10m north of its junction with Llanelian Road (unclassified) for a distance of 20m in a south easterly direction |
| **Llanelian Heights, Old Colwyn** | **Both sides:** from its junction with Llanelian Road for a distance of 6m in a northerly direction |
| **Bryn Awel, Old Colwyn** | **Both sides:** from its junction with Llanelian Road for a distance of 4m in a south easterly direction |
| **Llanelian Road, Old Colwyn** | **East side**: from a point 66m north west of its junction with Kyffin Close for a distance of 78m in a south easterly direction |
| **Kyffin Close, Old Colwyn** | **Both sides:** from its junction with Llanelian Road for a distance of 4m in a south easterly direction |
| **Llanelian Road, Old Colwyn** | **East side:** from a point 12m north of its junction with Ddol Ddu for a distance of 24m in a southerly direction |
| **Ddol Ddu, Old Colwyn** | **Both sides:** from its junction with Llanelian Road for a distance of 10m in an easterly direction |
| **St Catherine's Drive, Old Colwyn** | **West side:** from a point 38m north of its junction with Llanelian Road for a distance of 20m<br><br>**North side:** from a point 91m south of its junction with Abergele Road for a distance of 20m in a south easterly direction.<br><br>**South side:** from a point 100m south of its junction with Abergele Road for a distance of 20m in a south easterly direction. |
| **Llanelian Road, Old Colwyn** | **South side**: from a point 7m south west of its junction with Hillside Avenue for a distance of 27m in a south easterly direction |
| **Abergele Road, Colwyn Bay** | **South side:** from a point 30m west of its junction with Elian Road for a distance of 60m in an easterly direction. |
| **Elian Road, Colwyn Bay** | **Both sides:** from its junction with Abergele Road for a distance of 10m in a southerly direction. |
| **Llanelian Road, Old Colwyn** | **East side:** from a point 10m north west of its junction with Minafon for a distance of 17m in a south easterly direction |
| **Minafon, Old Colwyn** | **Both sides:** from its junction with Llanelian Road for a distance of 10m in a north easterly direction |
| **Church Walks, Old Colwyn** | **Both sides:** 4m south west from its junction with Green Hill for a distance of 3m in a south westerly direction |
| **Green Hill, Old Colwyn** | **North side:** from its junction with Church Walks for a distance of 42m in a westerly direction |

| | |
|---|---|
| | **South side:** from its junction with Church Walks for a distance of 8m in a westerly direction |

**Schedule 2**

No loading at any time

| | |
|---|---|
| **Llanelian Road** | **North side:** From its junction with Sandhills Road for a distance of 105m<br>**South side:** from a point 14m north-west of its junction with Sandhills Road for a distance of 28m in a south easterly direction |
| **Sandhills Road** | **Both sides:** from its junction with Llanelian Road for a distance of 11m in a south-westerly direction |

**GIVEN** under the Common Seal of the Conwy County Borough Council the day of Two thousand and twenty five